# CRONFA BENSIWN
# **POWYS**
# PENSION FUND

**Cyhoeddwyd 2022**

Fersiwn 5: yn ddilys o ***2 Chwefror 2022***

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLAWN

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a ddaeth i rym yn y DU ar 25 Mai 2018.

## ar gyfer aelodau a buddiolwyr Cronfa Bensiwn Powys

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar gyfer aelodau a buddiolwyr Cronfa Bensiwn Powys (y **"Gronfa"**). Fe'i paratowyd gan Gyngor Sir Powys (yr **"Awdurdod Gweinyddol"**, neu **"ni"**) yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn hefyd ar gael ar wefan y Gronfa drwy'r ddolen ganlynol:

www.powyspensionfund.org.uk/forms-and-publications/

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd neu bolisi prosesu teg arall y gallwn ei ddarparu ar adegau penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch chi fel eich bod yn gwbl ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio'ch data. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disodli unrhyw hysbysiad preifatrwydd cyffredinol y gallem fod wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac mae'n ategu unrhyw hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd eraill a gyhoeddwn sy'n ymwneud yn benodol â gweithgareddau casglu/prosesu data penodol.

### Pam rydym yn darparu'r hysbysiad hwn i chi

Fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, rydym yn cadw gwybodaeth benodol amdanoch chi ac y gellir eich adnabod ohoni (**"data personol"**) a ddefnyddiwn i weinyddu'r Gronfa ac i dalu buddion ohoni. Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni roi gwybodaeth benodol i chi am y data personol sydd gennym amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas ag ef a'r mesurau diogelu sydd ar waith i'w ddiogelu. Diben yr hysbysiad hwn yw rhoi'r wybodaeth honno i chi.

### Y darn technegol

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn cadw data personol amdanoch chi, yn rhinwedd ei swydd fel rheolydd, er mwyn ymdrin yn briodol â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Gronfa, gan gynnwys ei gweinyddu a'i rheoli. Mae hyn yn cynnwys yr angen i brosesu eich data i gysylltu â chi, i gyfrifo, sicrhau a thalu eich buddion, ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol ac at ddibenion cyfeirio (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu buddion i aelodau a buddiolwyr a sut y dylid buddsoddi'r arian hwnnw), ac i reoli rhwymedigaethau a gweinyddu'r Gronfa'n gyffredinol. Rhoddir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data personol isod.

Y sail gyfreithiol ar gyfer ein defnydd o'ch data personol fel arfer fydd bod angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Fodd bynnag, lle nad yw'r sail gyfreithiol honno'n berthnasol, y sail gyfreithiol ar gyfer ein defnydd o'ch data personol fydd un neu fwy o'r canlynol:

a) mae angen i ni brosesu eich data personol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol yn rhinwedd ein swyddogaeth fel corff cyhoeddus; a/neu

b) mae angen i ni brosesu eich data personol er budd cyfreithlon gweinyddu a rheoli'r Gronfa a'r rhwymedigaethau oddi tani, cyfrifo, sicrhau a thalu buddion a chyflawni ein rhwymedigaethau ac arfer unrhyw hawliau, dyletswyddau a disgresiwn sydd gan yr Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r Gronfa; a/neu
c) oherwydd bod angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cytundebol i chi mewn perthynas â'r Gronfa (er enghraifft, o dan gytundeb y byddwch yn talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i'r Gronfa), neu i gymryd camau, ar eich cais, cyn ymrwymo i gontract.

**Pa ddata personol sydd gennym, a sut rydym yn ei gael**

Gallai'r mathau o ddata personol rydym yn ei gadw a'i brosesu amdanoch chi gynnwys:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Manylion adnabod, gan gynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol a rhifau gweithwyr ac aelodaeth.
- Gwybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo ac asesu cymhwysedd ar gyfer buddion, er enghraifft, hyd gwasanaeth neu aelodaeth a gwybodaeth am gyflog.
- Gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol i gyfrifo neu dalu buddion, er enghraifft, manylion cyfrif banc a threth.
- Gwybodaeth am eich teulu, dibynyddion neu amgylchiadau personol, er enghraifft, statws priodasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i ddosbarthu a dyrannu buddion sy'n daladwy yn dilyn marwolaeth.
- Gwybodaeth am eich iechyd, er enghraifft, i asesu cymhwysedd am fuddion sy'n daladwy oherwydd afiechyd, neu lle mae eich iechyd yn berthnasol i gais am fuddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r Gronfa.
- Gwybodaeth am euogfarn droseddol os yw hyn wedi arwain at fod arnoch chi arian i'ch cyflogwr neu'r Gronfa ac y gallai'r cyflogwr neu'r Gronfa gael eu had-dalu o'ch buddion.

Rydym yn cael rhywfaint o'r data personol hwn yn uniongyrchol oddi wrthych chi. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael data (er enghraifft, gwybodaeth am gyflog) gan eich cyflogwr/cyflogwyr presennol neu flaenorol neu gwmnïau a'u holynodd mewn busnes, gan aelod o'r Gronfa (lle'r ydych neu lle gallech fod yn fuddiolwr o'r Gronfa o ganlyniad i aelodaeth y person hwnnw o'r Gronfa) ac o amrywiaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys cronfeydd data cyhoeddus (fel y Gofrestr Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau), ein hymgynghorwyr a chyrff y llywodraeth neu gyrff rheoleiddio, gan gynnwys y rhai yn y rhestr o sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw a nodir isod.

Pan fyddwn yn cael gwybodaeth am rai "categorïau arbennig" o ddata arbennig o sensitif, megis gwybodaeth iechyd, mae mesurau diogelu ychwanegol yn berthnasol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddwn yn prosesu eich data personol sy'n dod o fewn un o'r categorïau arbennig, oni bai y gallwn brosesu'r data hwn yn gyfreithlon am reswm arall a ganiateir gan y ddeddfwriaeth honno. Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd i brosesu yn ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn ysgrifenedig. Ond os na fyddwch yn rhoi caniatâd, neu'n tynnu eich caniatâd yn ôl wedyn, mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gallu prosesu'r wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau yn seiliedig arni, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch talu eich buddion.

Lle rydych wedi rhoi data personol i ni am unigolion eraill, megis aelodau'r teulu, dibynyddion neu fuddiolwyr posibl o dan y Gronfa, gofalwch fod yr unigolion hynny'n ymwybodol o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad hwn.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol

Byddwn yn defnyddio'r data hwn i ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Gronfa, gan gynnwys ei gweinyddu a'i rheoli. Gallai hyn gynnwys prosesu eich data personol ar gyfer pob un neu unrhyw un o'r dibenion canlynol:

- I gysylltu â chi.
- I asesu cymhwysedd ar gyfer buddion, cyfrifo a rhoi buddion i chi (ac, os ydych yn aelod o'r Gronfa, i'ch buddiolwyr ar ôl i chi farw).
- I nodi eich opsiynau posibl neu wirioneddol o ran buddion a, lle bo'n berthnasol, gweithredu'r opsiynau hynny.
- I ganiatáu ffyrdd eraill o gyflwyno eich buddion, er enghraifft, trwy ddefnyddio cynhyrchion yswiriant a throsglwyddiadau i drefniadau pensiwn eraill neu uno â threfniadau pensiwn eraill.
- At ddibenion modelu a chyfeirio ystadegol ac ariannol (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu buddion i aelodau a buddiolwyr a sut y dylid buddsoddi'r arian hwnnw).
- I asesu ac, os yw'n briodol, gweithredu cais a wnewch i drosglwyddo eich buddion allan o'r Gronfa.
- I gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa.
- I ymdrin ag ymholiadau gan aelodau a buddiolwyr eraill ac ymateb i unrhyw anghydfodau gwirioneddol neu bosibl yn ymwneud â'r Gronfa.
- I reoli rhwymedigaethau'r Gronfa, gan gynnwys gwneud trefniadau yswiriant a dewis buddsoddiadau'r Gronfa.
- Mewn cysylltiad â gwerthu, uno neu ad-drefnu corfforaethol neu drosglwyddo busnes gan y cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa a'u cwmnïau grŵp.

## Sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw

O bryd i'w gilydd byddwn yn rhannu eich data personol gyda chynghorwyr a darparwyr gwasanaethau fel y gallant ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau, ein hawliau a'n disgresiwn mewn perthynas â'r Gronfa.  Bydd rhai o'r sefydliadau hynny yn prosesu eich data personol ar ein rhan ac yn unol â'n cyfarwyddiadau; cyfeirir atynt fel proseswyr. Bydd sefydliadau eraill yn gyfrifol i chi yn uniongyrchol am eu defnydd o ddata personol yr ydym yn ei rannu â nhw; cyfeirir atynt fel rheolwyr. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r rheolwyr dan y ddeddfwriaeth diogelu data roi gwybodaeth ychwanegol i chi am y data personol y maent yn ei gadw amdanoch a sut a pham y maent yn prosesu'r data hwnnw. Mae'n bosibl y rhoddir rhagor o wybodaeth i chi mewn hysbysiad ar wahân neu gellir ei chael gan y cynghorwyr a'r darparwyr gwasanaeth yn uniongyrchol, er enghraifft drwy eu gwefannau.

Pryd bynnag y bydd un o'n cynghorwyr neu ddarparwyr gwasanaeth yn gweithredu fel rheolydd ar y cyd â ni mewn perthynas â'ch data personol, oherwydd ein bod yn pennu'r dibenion a'r dulliau o'i brosesu ar y cyd, byddwn yn cytuno â nhw sut y byddwn yn mynd i gyflawni ein rhwymedigaethau priodol a chyfunol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Os hoffech ragor o wybodaeth am sut mae trefniant o'r fath yn gweithio, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Gallai'r sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw gynnwys y cynghorwyr a'r darparwyr gwasanaeth canlynol:

| **Proseswyr** | **Rheolwyr** |
|---|---|
| • Gweinyddwr – (Cyngor Sir Powys ar hyn o bryd)<br>• Cyfrifwyr – (Cyngor Sir Powys ar hyn o bryd)<br>• Canolfannau olrhain ar gyfer sgrinio marwolaethau a lleoli aelodau – (ATMOS, Western Union ar hyn o bryd)<br>• Darparwr taliadau tramor i drosglwyddo taliadau i aelodau'r cynllun sydd â chyfrifon y tu allan i'r DU – (Western Union ar hyn o bryd)<br>• Cwmnïau argraffu - (Adare ar hyn o bryd)<br>• Darparwr meddalwedd pensiynau – (Aquila Heywood ar hyn o bryd)<br>• Cyflenwyr gwasanaethau TG, cynhyrchu dogfennau a dosbarthu | • Ymgynghorydd actiwaraidd – (AON ar hyn o bryd)<br>• Cynghorydd buddsoddi – (AON ar hyn o bryd)<br>• Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol – (Prudential, Standard Life ac Utmost Life and Pensions ar hyn o bryd)<br>• Cynghorydd cyfreithiol – (Burgess Salmonar hyn o bryd)<br>• Actiwari'r Gronfa – (AON ar hyn o bryd)<br>• Archwiliwr statudol – (Archwilio Cymru ar hyn o bryd)<br>• Archwiliwr allanol – (Archwilio Cymru ar hyn o bryd)<br>• Archwiliwr mewnol – (SWAP ar hyn o bryd)<br>• Cwmnïau mewn cysylltiad â buddion afiechyd<br>• Cronfa ddata Yswiriant Gwladol LGPS – (Awdurdod Pensiynau De Swydd Efrog)<br>• Awdurdodau gweinyddu cronfeydd LGPS eraill (neu eu hasiantau, megis gweinyddwyr trydydd parti) lle buoch yn aelod o gronfa LGPS arall a bod angen y wybodaeth i bennu'r buddion y mae gennych chi neu'ch dibynyddion hawl iddynt<br>• Yr Adran Gwaith a Phensiynau<br>• Adran Actiwari'r Llywodraeth<br>• Swyddfa'r Cabinet – at ddibenion y Fenter Twyll Genedlaethol<br>• CThEM<br>• Llysoedd Cymru a Lloegr – at ddiben prosesu gorchmynion rhannu pensiwn yn dilyn ysgariad |

Pan fyddwn yn gwneud buddsoddiadau i'r Gronfa neu'n ceisio darparu buddion i aelodau a buddiolwyr mewn ffyrdd eraill, megis trwy ddefnyddio yswiriant, yna efallai y bydd angen i ni hefyd rannu data personol gyda darparwyr buddsoddiadau, yswirwyr a gweithredwyr cynlluniau pensiwn eraill.

O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn darparu rhywfaint o'ch data i'ch cyflogwr a'u his-gwmnïau perthnasol (a darpar brynwyr eu busnesau) a chynghorwyr at ddibenion galluogi'r endidau hynny i ddeall atebolrwydd a rhwymedigaethau'r cyflogwr o ran y Gronfa. Yn gyffredinol, eich

cyflogwr fyddai rheolwr y data personol a rennir ag ef o dan yr amgylchiadau hynny. Er enghraifft, lle mae eich cyflogaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn amodol ar drefniant allanol, gallai'r Awdurdod Gweinyddu ddarparu gwybodaeth am eich buddion pensiwn i'ch cyflogwr ac i gynigwyr posibl am y contract hwnnw pan ddaw i ben neu pan gaiff ei adnewyddu.

Lle gofynnir am hynny neu os ydym yn ystyried ei fod yn ofynnol yn rhesymol, gallwn hefyd ddarparu eich data i gyrff y llywodraeth a sefydliadau datrys anghydfodau a gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys y rhai a restrir uchod, y Rheoleiddiwr Pensiynau, yr Ombwdsmon Pensiynau a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC).  Gallant wedyn ddefnyddio'r data i gyflawni eu swyddogaethau.

Gallai'r sefydliadau y cyfeirir atynt yn y paragraffau uchod ddefnyddio'r data personol i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Gronfa yn ogystal ag ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol (megis cyfrifo costau buddion cyfartalog disgwyliedig a chyfraddau marwolaethau) ac at ddibenion cynllunio, gweinyddu busnes a rheoleiddio.  Gallant hefyd drosglwyddo'r data i drydydd parti arall (er enghraifft, gallai yswirwyr drosglwyddo data personol i gwmnïau yswiriant eraill at ddiben cael ailyswiriant), i'r graddau y maent yn ystyried bod y wybodaeth yn ofynnol yn rhesymol at ddiben cyfreithlon.

Nid ydym yn defnyddio eich data personol at ddibenion marchnata ac ni fyddwn yn rhannu'r data hwn ag unrhyw un at ddiben marchnata i chi nac i unrhyw fuddiolwr.

**Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r DU**

Mewn rhai achosion gallai derbynwyr eich data personol fod y tu allan i'r DU. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd eich data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU i awdurdodaeth na fydd efallai'n cynnig lefel ddigonol o amddiffyniad fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU.

Os bydd hyn yn digwydd, rhaid gweithredu mesurau diogelu ychwanegol gyda golwg ar ddiogelu eich data personol yn unol â chyfreithiau perthnasol.  Defnyddiwch y manylion cyswllt isod os hoffech ragor o wybodaeth am y mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd.

**Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol**

Byddwn yn cadw eich data personol am gyhyd ag sydd ei angen arnom er mwyn cyflawni'r diben(ion) y'i casglwyd ar ei gyfer yn unig ac am gyhyd wedi hynny ag y credwn y gallai fod yn ofynnol i ymdrin ag unrhyw gwestiynau neu gwynion a gawn ynglŷn â'n dull o weinyddu'r Gronfa, oni bai ein bod yn dewis cadw eich data am gyfnod hwy er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd eich data personol yn cael ei gadw am y mwyaf o'r canlynol:

- y cyfryw gyfnod ag y mae gennych chi (neu unrhyw fuddiolwr sy'n derbyn buddion ar ôl eich marwolaeth) hawl i fuddion o'r Gronfa ac am gyfnod o 60 mlynedd ar ôl i'r buddion hynny beidio â chael eu talu. Am yr un rheswm, efallai y bydd angen cadw eich data personol hefyd pan fyddwch wedi derbyn trosglwyddiad, neu ad-daliad, o'r Gronfa mewn perthynas â'ch hawl i fuddion.

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i gyrchu a chael copi o'r data personol y mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ei gadw amdanoch ac i ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu gywiro eich data personol os oes unrhyw

wallau neu os yw wedi dyddio neu'n anghyflawn. Mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, efallai y bydd gennych hawl hefyd i ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu gyfyngu ar brosesu eich data personol, neu i drosglwyddo neu ddileu eich data personol (mewn amgylchiadau hynod gyfyngedig, megis pan nad oes angen eich data personol mwyach at y diben y mae'n cael ei brosesu ar ei gyfer). Dylech nodi nad oes rheidrwydd arnom i ddileu eich data personol os oes angen i ni ei brosesu at ddibenion gweinyddu'r Gronfa.

Mewn rhai amgylchiadau mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol; er enghraifft, mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol sy'n seiliedig ar les y cyhoedd neu fuddiannau cyfreithlon a nodir yn yr adran uchod o dan y pennawd "*Y darn technegol*", neu lle mae'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk neu drwy ei linell gymorth ffôn (0303 123 1113).

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch prosesu eich data personol, cysylltwch â Gweinyddwr y Gronfa fel y nodir isod. Mae gennych hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu weithgareddau prosesu'r Awdurdod Gweinyddu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gallwch wneud hynny drwy'r wefan uchod neu drwy eu llinell gymorth ffôn.

Fel yr eglurwyd yn yr adran uchod dan y pennawd "*Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol*", un o'r rhesymau rydym yn casglu ac yn cadw eich data personol yw er mwyn gweinyddu buddion eich Cronfa. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth rydym yn gofyn amdani, neu'n gofyn i'r data personol sydd gennym eisoes gael ei ddileu neu i brosesu'r data personol gael ei gyfyngu, gallai hyn effeithio ar ein gallu i weinyddu eich buddion, gan gynnwys talu buddion o'r Gronfa. Mewn rhai achosion gallai olygu na all yr Awdurdod Gweinyddu dalu eich pensiwn neu fod yn rhaid iddo atal eich pensiwn (os yw eisoes yn cael ei dalu).

**Diweddariadau**

Mae'n bosibl y byddwn yn diweddaru'r hysbysiad hwn o bryd i'w gilydd. Lle byddwn yn gwneud hyn byddwn yn hysbysu aelodau a buddiolwyr o'r newidiadau a'r dyddiad y daw'r newidiadau i rym.

**Cysylltu â ni**

Cysylltwch â Gweinyddwr y Gronfa Cyngor Sir Powys am ragor o wybodaeth yn pensions@powys.gov.uk .

Adran Bensiynau
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Spa Road
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

**Rheolydd Data**

Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Spa Road

Llandrindod
Powys
LD1 5LG

**Swyddog Diogelu Data**

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r cyngor drwy e-bost yn Information.Compliance@powys.gov.uk a thros y ffôn ar 01597 826400